# Pleidleisiau a Thrafodion – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 8 Mai 2024

Amser y cyfarfod: 13.30

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13908

## 207

Cynhaliwyd y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

## 1 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol, Tai a Chynllunio

Dechreuodd yr eitem am 13.30

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 2 Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Dechreuodd yr eitem am 14.28

Gofynnwyd yr 8 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Llywydd lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cabinet ar ôl cwestiwn 2.

## 3 Dadl – Cyfnod 4 Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Dechreuodd yr eitem am 15.15

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM8576** Mick Antoniw (Pontypridd)

Cynnig bod y Senedd yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 43 | 0 | 16 | 59 |

**Derbyniwyd y cynnig.**

## 4 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 5 Datganiadau 90 Eiliad

Dechreuodd yr eitem am 15.46

Gwnaeth **Julie Morgan** ddatganiad am – Plac Porffor i Dorothy Miles, a gaiff ei hystyried yn arloeswr barddoniaeth BSL, yn ei thref enedigol, y Rhyl (26 Ebrill).

Gwnaeth **Lee Waters** ddatganiad am – Teyrnged i'r Athro David Marquand, cyn-Aelod Seneddol ac academydd.

Gwnaeth **Heledd Fychan** ddatganiad am – Gŵyl Mabon – gŵyl gerddoriaeth Gymraeg gyntaf y Rhondda, a gynhaliwyd yn Nhreorci (4 Mai).

## 6 Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol – Sut y mae'n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd

Dechreuodd yr eitem am 15.51

**NDM8569** Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, ‘Sut y mae’n rhaid i ni i gyd chwarae ein rhan: dull iechyd y cyhoedd o atal yr epidemig trais ar sail rhywedd’, a osodwyd ddydd Llun 15 Ionawr 2024.

Nodyn: Gosodwyd ymateb Llywodraeth Cymru i'r adroddiad yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2024.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Dadl ar ddeiseb P-06-1392: Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021

Dechreuodd yr eitem am 16.40

**NDM8567** Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi’r ddeiseb ‘P-06-1392 Diwygio Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021’ a gasglodd 15,160 o lofnodion.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 8 Dadl Plaid Cymru - Adfer tomenni glo a phyllau glo brig

Dechreuodd yr eitem am 17.31

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a’r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM8570** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd hon:

1. Yn nodi:

a) bod Cymru’n gartref i 40 y cant o’r holl domenni glo sy’n weddill yn y DU, a hynny o ganlyniad i ymelwa ar adnoddau naturiol Cymru;

b) bod gan fwy o law a thywydd eithafol y potensial i ansefydlogi'r tomenni hyn ymhellach; ac

c) y pryder a achosir i breswylwyr sy'n byw ger tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill.

2. Yn gresynu bod Llywodraeth y DU yn gwrthod darparu cyllid i gefnogi'r gwaith o adfer ac ail-bwrpasu tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill yn y tymor hir.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno deddfwriaeth ar frys i sefydlu corff newydd i ddarparu rhaglen adfer addas i'r diben ar gyfer tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu ar frys yr arian ychwanegol angenrheidiol ar gyfer y gyfundrefn archwilio a chynnal a chadw, yn ogystal ag ysgwyddo’r cyfrifoldeb ariannol hirdymor am ddiogelu tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill drwy waith adfer priodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 12 | 0 | 45 | 57 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Yn is-bwynt 1 (a), dileu 'ymelwa ar adnoddau naturiol Cymru' a rhoi 'dreftadaeth ddiwydiannol Cymru' yn ei le.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 41 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ym mhwynt 2, dileu 'yn gresynu bod Llywodraeth y DU yn gwrthod darparu' a rhoi 'yn credu y dylai Llywodraeth y DU barhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddarparu' yn ei le.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 41 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Dileu pwynt 3 a rhoi yn ei le:

Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £44 miliwn i awdurdodau lleol er mwyn cynnal a gwella diogelwch tomenni glo ers 2022, wedi cyflwyno system o fonitro’n rheolaidd domenni categori C a D a bydd yn cyflwyno deddfwriaeth newydd fodern ar gyfer tomenni nas defnyddir yn yr Hydref.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 0 | 27 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Dileu pwynt 4.

**Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:**

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 16 | 0 | 41 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

**NDM8570** Heledd Fychan (Canol De Cymru)

Cynnig bod y Senedd hon:

1. Yn nodi:

a) bod Cymru'n gartref i 40 y cant o'r holl domenni glo sy'n weddill yn y DU, a hynny o ganlyniad i ymelwa ar adnoddau naturiol Cymru;

b) bod gan fwy o law a thywydd eithafol y potensial i ansefydlogi'r tomenni hyn ymhellach; ac

c) y pryder a achosir i breswylwyr sy'n byw ger tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill.

2. Yn gresynu bod Llywodraeth y DU yn gwrthod darparu cyllid i gefnogi'r gwaith o adfer ac ail-bwrpasu tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill yn y tymor hir.

3. Yn nodi bod Llywodraeth Cymru wedi darparu dros £44 miliwn i awdurdodau lleol er mwyn cynnal a gwella diogelwch tomenni glo ers 2022, wedi cyflwyno system o fonitro'n rheolaidd domenni categori C a D a bydd yn cyflwyno deddfwriaeth newydd fodern ar gyfer tomenni nas defnyddir yn yr Hydref.

4. Yn galw ar Lywodraeth y DU i ddarparu ar frys yr arian ychwanegol angenrheidiol ar gyfer y gyfundrefn archwilio a chynnal a chadw, yn ogystal ag ysgwyddo'r cyfrifoldeb ariannol hirdymor am ddiogelu tomenni segur, pyllau glo brig a safleoedd ôl-ddiwydiannol eraill drwy waith adfer priodol.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 16 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 9 Cyfnod Pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 18.25

## 10 Dadl Fer

Dechreuodd yr eitem am 18.30

**NDM8568** Alun Davies (Blaenau Gwent)

Hedfan fry: ailgyflwyno eryrod cynffonwen yng Nghymru.

Daeth y cyfarfod i ben am 18.52

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 14 Mai 2024**